**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - Nos Fawrth, 17eg o Fai 2016.**

**Presennol:** Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Jones
Cyng. Beryl Salisbury

**2. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol - 19eg o Fai 2015 -** derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

Nodwyd bod Archwiliwr Allanol newydd wedi cael eu penodi ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf a hefyd fod gan y Cyngor nifer o seddi gwag o hyd - Cytunwyd i roi cynnig arall ar eu hysbysebu.

**3. Ethol Swyddogion 2016 – 2017**

**Cadeirydd -** Gyda Cyng. Dyfed Williams yn cynnig a Cyng. Gordon Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Gwilym O. Jones yn Gadeirydd.

**Is-gadeirydd** - Gyda Cyng. Gordon Owen yn cynnig a Cyng. Einir Thomas yn eilio fe etholwyd Cyng. Dyfed Williams yn Is-gadeirydd.

**…………………………………………………………………………………………………………**

**4. Datganiad o ddiddordeb - Cyng.** Gordon Owen a Gwilym O. Jones - eitem 10 (Neuadd Bentref) a Cyng. Einir Thomas eitem 8.1

**5. Cofnodion Cyfarfod 19eg o Ebrill 2016 -** derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**6. Materion yn codi o’r cofnodion**

1. Gwaith Camp Fali - Nodwyd bod y gwaith hwn wedi dechrau ac roedd y system rheoli traffig i weld yn gweithio yn dda.

2. Lloches Bws (Cyffordd A55)- roedd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau

3. Cae Chwarae - Cytunwyd y dylai Mr Rowlands wneud y gwaith cynnal a chadw ar y meinciau, rhoddwyd amcan bris o £60.00 am ddefnyddiau.

4. Ffens wrth Menai Handy Foods - Gofynnwyd i'r clerc atgoffa’r Cyngor Sir am hyn.



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

5. Unrhyw fater arall yn codi o’r cofnodion - dim

**7. Cytundebau a Thelerau:** Mr F. Rowlands - cytunwyd y dylai'r cytundeb aros yr un fath.

**Cytundebau / tâl a thelerau:** Clerc - cytunwyd y dylai'r cyflog y clerc barhau i fod yn gysylltiedig â graddfeydd cyflog y Llywodraeth Lleol fel y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

**8. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

<u>Ceisiadau Cynllunio</u>

1. 32C147A/ENF - Fferam, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer cadw amryw ddatblygiadau marchogaeth preifat. Cytunwyd mai mater i Swyddogion Cynllunio'r Cyngor Sir oedd hyn. Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y nifer o geisiadau ôl-weithredol oedd yn codi.

<u>Penderfyniadau Cynllunio</u>

2. c/32 - Barn, Pen y Llyn, Llanfair yn Neubwll - SP Energy Networks Certificate - dim gwrthwynebiad i hwn gan CSYM.

**9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn - fe nodwyd y canlynol**

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Cyflwyniad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
3. Teclyn Partneriaethol

**10. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 17.5.2016 Cyfrif Cyfredol £9524.73, Cyfrif Cadw £3919.28**

<u>**Taliadau i’w gwneud**</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Ebrill) | £176.35 | HMRC (TWE) | £44.09 |
| GMS (Archeb 0432) | £45.60 | Y Neuadd Bentref | £300.00 |
| AON | £1731.23 | | |

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)

Hefyd fe gytunwyd i roi rhodd o £900 at gostau rhedeg a chynnal y Neuadd (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Einir Thomas)



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

**11. Dogfennau Statudol**

1. Cod Ymddygiad - Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd yn unol â'r Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016.

   Cyfeiriwyd at sesiwn hyfforddiant y Cyngor Sir yn 2014 a chytunwyd y byddai'r clerc yn paratoi sesiwn arall i atgoffa'r Aelodau ar 'Datgan Diddordeb' yn gyffredinol.

2. Rheoliadau Cyllidol - Nodwyd bod y model newydd a ddaeth gan y Cynulliad wedi ei dynnu'n ôl.

**12. Gohebiaeth Eraill**

1. Computershare - Roedd ad-daliad o'r £100 a fuddsoddwyd yn hyn i ddod.

2. 'The Ombudsman's Casebook' - Rhifyn 24 - nodwyd

**13. Unrhyw fater arall - dim**

**14. Cyfarfod nesaf 21ain o Fehefin 2016**



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)